Y Swyddfa Academaidd, Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 2AX
The Academic Office, Old College, King Street, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 2AX

Ffôn/Tel: (01970) 622195 Ffacs/Fax: (01970) 621831
E-bost/E-mail: pgsstaff@aber.ac.uk

# GWEITHDREFN AR GYFER CYFLWYNO TRAETHAWD ESTYNEDIG GRADD MEISTR I'W ARHOLI

Bydd y nodiadau canlynol yn ganllaw i chi wrth gwblhau'r ffurflenni sydd yn angenrheidiol i gefnogi cyflwyniad eich traethawd estynedig Meistr a addysgir, i'w arholi gan Brifysgol Aberystwyth. Mae rhestr wirio wedi'i chynnwys i'ch helpu chi i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol wedi eu cymryd cyn cyflwyno'ch gwaith.

Yn rhan o'r nodiadau hyn ceir cynllun ar gyfer y dudalen gosodiadau a datganiad y dylid ei chynnwys gyda'ch traethawd estynedig. Dylai cynnwys y dudalen hon gael ei atgynhyrchu fel ag y mae, ei lenwi, ei lofnodi a'i gynnwys yn rhwymiad y traethawd estynedig. Ar ddiwedd y ddogfen ceir dau gopi o'r 'Ffurflen Hysbysu Ymgeisyddiaeth' i'w llenwi a'u cyflwyno ynghyd â dau gopi o'ch traethawd estynedig. Defnyddiwch inc du ar gyfer yr holl ffurflenni.

Bydd dilyn y canllawiau'n ofalus ac yn llawn yn galluogi i'r Brifysgol arholi eich traethawd estynedig mewn modd amserol. Darllenwch y nodiadau canllaw i'r diwedd a'u cadw er gwybodaeth at y dyfodol.

RHESTR WIRIO AR GYFER CYFLWYNO TRAETHAWD ESTYNEDIG GRADD MEISTR A ADDYSGIR

Camau i'w Cyflawni Cyn Cyflwyno

- ☐ Gofyn am Dystysgrif Aur yn cadarnhau eich bod wedi cyflawni eich holl ymrwymiadau ariannol. Gellir cael hon ar-lein drwy wefan y Swyddfa Academaidd.

I'w Cyflwyno gyda'r Traethawd Estynedig

- ☐ Dau gopi o'ch traethawd estynedig wedi'u rhwymo a'u labelu gyda'r Datganiad, Gosodiad 1 a Gosodiad 2 wedi'u cynnwys ym mhob copi rhwymedig
- ☐ Dau gopi o'r Ffurflen Hysbysu Ymgeisyddiaeth
- ☐ Yn achos ymgeiswyr staff NEU draethodau estynedig sy'n cael eu cyflwyno i'w hail-arholi, siec yn daladwy i Brifysgol Aberystwyth am y ffi arholi briodol.

*OS BYDD UNRHYW UN O'R UCHOD YN CAEL EI HEPGOR BYDD OEDI WRTH ARHOLI EICH TRAETHAWD ESTYNEDIG.*

CANLLAWIAU I YMGEISWYR

Darllenwch y nodiadau hyn ac yna'u datgysylltu a'u cadw cyn cyflwyno eich traethawd estynedig a'r dogfennau cefnogol perthnasol angenrheidiol.

## 1 Terfynau Amser ar Draethodau Estynedig

Dylai eich traethawd estynedig gael ei gyflwyno ar neu cyn y terfyn amser a bennir drwy Reoliad.

Ni all ymgeisydd newid, ychwanegu at, neu ddileu unrhyw beth o'u traethawd estynedig ar ôl ei gyflwyno i'w arholi. Ni chaiff traethodau estynedig a gyflwynwyd, felly, gael eu dychwelyd i'r ymgeiswyr i'w diwygio cyn i'r Bwrdd Arholi gwblhau eu hystyriaethau a'u hargymhelliad ffurfiol.

## 2 Hyd y Traethawd Estynedig

Fel rheol, ni ddylai testun y traethawd estynedig (heb gynnwys atodiadau a throednodiadau dilys) fod yn hwy nag 20,000 o eiriau.

## 3 Dogfen(nau) i'w Cyflwyno â'ch Traethawd Estynedig (Ffurflenni Hysbysu Ymgeisyddiaeth)

Mae'n rhaid i chi gwblhau dau gopi o'r Ffurflen Hysbysu Ymgeisyddiaeth wedi'i llenwi ar y ddwy ochr a'u cyflwyno ynghyd â'ch traethawd estynedig.  Os byddwch yn cymhwyso ar gyfer eich gradd drwy fodloni'r arholwyr, bydd yn rhaid i chi gael eich derbyn iddi yn ffurfiol cyn y gallwch dderbyn tystysgrif gradd neu ddefnyddio'r llythrennau priodol ar ôl eich enw. Gallwch ddewis cael eich derbyn i'r radd mewn un o ddwy ffordd:

***naill ai***

(a) drwy fod yn bresennol mewn cynulliad gradd ffurfiol ble mae gwisg academaidd ffurfiol yn cael ei gwisgo, ac y mae'n bosibl i rieni a/neu bartneriaid fod yn bresennol. Mae cynulliadau yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn ym mis Gorffennaf.

***neu***

(b) in absentia drwy orchymyn Is-Ganghellor y Brifysgol. Gweithdrefn weinyddol yw hon ac ni fyddwch yn bresennol. Yn fisol yn ystod y flwyddyn mae'r Is-Ganghellor yn llofnodi rhestr sy'n cynnwys enwau'r myfyrwyr sydd wedi cymhwyso ar gyfer eu graddau'n ddiweddar.  Bydd tystysgrifau'n cael eu hanfon cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Is-Ganghellor lofnodi'r rhestr.

Mae'n rhaid i chi dicio eich dewis wrth gwblhau eich Ffurflen Hysbysu Ymgeisyddiaeth.  Nodwch na chewch chi gael eich derbyn i radd drwy weithred yr Is-Ganghellor ac yna ddewis cymryd rhan mewn cynulliad gradd yn ddiweddarach.

Os ydych chi'n dewis mynychu cynulliad, nodwch, er mwyn caniatáu digon o amser i'r broses arholi a'r gweithdrefnau gweinyddol angenrheidiol gael eu cwblhau, y dylid cyflwyno traethodau estynedig i'w harholi yn gynnar yn y flwyddyn. Fel rheol byddai hyn yn golygu cyflwyno eich traethawd estynedig erbyn dechrau mis Ebrill.

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon cyn gynted â phosibl ar ôl cynulliadau gradd, fel rheol o fewn dau fis i'r dyddiad y'i cynhaliwyd.

## 4 Dogfen(nau) i'w Cyflwyno yn Rhan o'ch Traethawd Estynedig (Datganiad a Gosodiadau)

Yn rhan o'r nodiadau canllaw hyn ceir tudalen o'r enw 'Cynllun y Dudalen Datganiad a Gosodiadau'. Dylai cynnwys y dudalen hon, y Datganiad, Gosodiad 1 a Gosodiad 2 (wedi'u haddasu ar gyfer Gwahardd Mynediad os yw'n briodol), gael eu rhoi ar flaen y ddau gopi o'ch traethawd estynedig heb newid geiriad na chynnwys y Datganiad na'r Gosodiadau. Mae'n rhaid llofnodi a rhoi'r dyddiad ar bob Datganiad a Gosodiad.

## 5 CyflwynoTraethodau Estynedig

Rhaid i ymgeiswyr sy'n cyflwyno traethodau estynedig i'w harholi gyflwyno dau gopi naill ai mewn rhwymiad dros dro neu mewn rhwymiad parhaol sy'n addas ar gyfer eu hadneuo a'u defnyddio maes o law mewn llyfrgelloedd.

Beth bynnag y bo'r math o rwymiad a ddefnyddir i bwrpas arholi:

(a) mae'n rhaid i chi sicrhau bod y rhwymiad yn ddigon cadarn i wrthsefyll cael ei anfon at yr arholwyr ac yn ôl; ac

(b) mae'n rhaid i feingefn y traethawd estynedig, mewn ffurf na ellir ei ddileu na'i ddatgysylltu'n hawdd, gynnwys:
   a. enw'r ymgeisydd;
   b. enw'r Brifysgol (y gellir ei dalfyrru fel PA);
   c. y radd y cyflwynwyd y traethawd estynedig amdani;
   d. teitl llawn y traethawd estynedig neu'r teitl wedi'i dalfyrru; a'r
   e. dyddiad cyflwyno.

   Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hargraffu ar y meingefn mewn ffordd fydd yn ddarllenadwy pan fydd y gyfrol yn gorwedd yn wastad gyda'r clawr blaen uchaf. Os yw'r gwaith yn cynnwys rhagor nag un gyfrol, rhaid i'r meingefn hefyd gynnwys rhif pob cyfrol.

Rhaid i'r holl gopïau o draethodau estynedig, boed i bwrpas arholi neu adneuo mewn llyfrgelloedd, gael eu cyflwyno ar ffurf barhaol a darllenadwy mewn teipysgrif neu brint a rhaid i'r llythrennau a ddefnyddir yn y prif destun (ond nid o reidrwydd yn y darluniau, mapiau ac ati) beidio â bod yn llai na 12pt; rhaid i lythrennau a ddefnyddir ym mhob testun arall, nodiadau, troednodiadau ac ati, beidio â bod yn llai na 10pt. Rhaid i'r teipio fod o ansawdd gyson gyda llythrennau du clir, y gellir eu hatgynhyrchu'n ffotograffig.

Rhaid defnyddio bylchiad dwbl neu un-a-hanner yn y prif destun, ond bylchiad sengl yn y crynodeb ac unrhyw ddyfyniadau wedi'u mewnoli a throednodiadau. Rhaid i ddarluniau a brasluniau fod mewn inc du; rhaid hepgor unrhyw fanylion nad ydynt yn angenrheidiol a rhaid i'r gyfradd fod gyfryw fel nad yw'r gofod lleiaf rhwng y llinellau yn llai na 1mm.

Rhaid i bob tudalen fod wedi'i rhifo'n gywir.

Gellir defnyddio graffeg lliw ar gyfer siartiau, diagramau ac ati yn ogystal â ffotograffau lliw, ond ym mhob achos rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod modd llungopïo neu sganio'r deunydd yn electronig. Mae copïau a gynhyrchwyd drwy broses serograffig neu brosesau parhaol tebyg yn dderbyniol. Rhaid defnyddio papur A4 a dylai fod o ansawdd da ac yn ddigon afloyw i'w ddarllen yn y ffordd arferol.

Rhaid cyflwyno diagramau, mapiau a dogfennau tebyg mewn portffolio o faint rhesymol a rhaid iddo gynnwys yr un manylion ag sy'n ofynnol ar gyfer y gyfrol.

Caiff ymgeiswyr gyflwyno deunydd nad yw'n ddeunydd llyfr megis recordiadau sain neu fideo gyda'u traethawd estynedig, os yw deunydd o'r fath yn ychwanegiad defnyddiol, neu yn esboniad o waith sydd wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad ysgrifenedig ac os mai deunydd o'r fath yw'r dull mwyaf priodol o gyflwyno'r wybodaeth dan sylw. Dylid amgáu unrhyw ddeunydd o'r fath mewn cynhwysydd sydd yn addas ar gyfer storio ar silff llyfrgell ac sydd yn dangos yr un wybodaeth ag sy'n ofynnol ar feingefn y traethawd estynedig, wedi'i gosod fel ei bod yn ddarllenadwy pan fydd y cynhwysydd yn ei safle storio. Dylai ymgeiswyr sydd yn ystyried cyflwyno tapiau sain neu fideo fel atodiadau i'w traethawd estynedig ymgynghori â'u harolygydd a Llyfrgellydd y Brifysgol i gael cyngor yn gynnar yn ystod eu prosiect.

## 6 Mathau o Rwymo

<u>Rhwymo Parhaol</u>

Os ydych chi'n dewis rhwymiad parhaol, dylai eich traethawd estynedig fod wedi'i rwymo mewn clawr caled parhaol, a dylai'r rhwymiad fod yn sefydlog lle mae'r tudalennau wedi'u cysylltu'n barhaol yn null llyfr clawr caled, neu mewn rhwymiad clawr papur gyda throshaen blastig.

<u>Rhwymo Dros Dro</u>

Ni ddylid drysu rhwymiad dros dro â dim rhwymiad o gwbl. Nid yw dalenni rhydd mewn ffeil waled yn dderbyniol.

Argymhellir y mathau canlynol o rwymo dros dro:

(a) rhwymiad perffaith (fel y ddogfen hon)

(b) rhwymiad meingefn sbring (cyhyd â bod y ffeiliau heb eu gorlenwi)

(c) rhwymiad plastig llithr (o'r math a ddefnyddir i hongian posteri ar waliau)

<u>Nid</u> yw'r mathau canlynol o rwymiad yn addas, gan y byddai cyfnewid i rwymiad parhaol yn cymryd mwy o amser (ac felly'n ddrutach) a naill ai byddai'r tyllau yn y tudalennau yn weladwy yn y fersiwn parhaol neu byddai'r tudalennau gryn dipyn yn llai na lled A4 llawn:

(a) rhwymiad troellog

(b) ffeil fodrwy neu ffeil lifer

Rhaid i draethodau estynedig sydd â rhwymiad dros dro fod yn gallu gwrthsefyll trin a thrafod, cael eu cludo at yr arholwyr ac yn ôl a'r broses arholi ei hun. Rhaid gofalu bod unrhyw rwymiad dros dro a ddefnyddir yn ddigon cadarn i beidio ymddatod neu ymwahanu.

## 7 Y Broses Arholi

At ddibenion yr arholiad, dylai enwebai'r Adran anfon un copi o'r traethawd estynedig a gyflwynwyd yn uniongyrchol at yr arholwr allanol, ynghyd â ffurflen Canlyniad ac Adroddiad Arholiad a ffurflen hawlio costau a ffi'r arholwr allanol.

Gofynnir i'r arholwyr allanol (a) roi gwybod i'r Gofrestrfa ar unwaith os ydynt yn cael drafft o draethodau estynedig i roi sylwadau arnynt a'u dychwelyd *cyn* dechrau'r broses arholi ffurfiol a (b)

wrthod yn gadarn unrhyw awgrym y dylid dychwelyd traethawd estynedig at ymgeisydd i'w ddiwygio a'i ailystyried cyn i'r Bwrdd Arholi gwblhau eu hystyriaethau ffurfiol.

## 8 Ar ôl Arholi

Nid yw traethodau estynedig Meistr a Addysgir yn cael eu hadneuo'n awtomatig mwyach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru nac yn llyfrgell y Brifysgol. O dan yr amodau canlynol yn unig yr adneuir traethodau estynedig yn y llyfrgelloedd:

(a) os bernir hwy o safon Rhagoriaeth gan yr arholwyr (boed yr ymgeisydd wedi ennill y radd gyda Rhagoriaeth ai peidio); *neu*

(b) os ydynt ym meysydd Astudiaethau Celtaidd, Cymraeg neu Hanes Cymru; *neu*

(c) os nad ydynt yn bodloni'r naill neu'r llall o'r meini prawf uchod ond y maent ym marn yr arholwyr o berthnasedd arbennig i Gymru.

Gall traethodau estynedig nad ydynt yn cael eu hadneuo yn y llyfrgelloedd gael eu cadw gan yr adran astudio neu eu dychwelyd i'r myfyriwr.

Wedi i'r arholiad gael ei gwblhau, rhaid i'r arholwr allanol ddychwelyd yr holl draethodau estynedig yn uniongyrchol i Gynullydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd Arholi yn yr Adran berthnasol.

Lle bo'r ymgeisydd wedi llwyddo a lle – yn unol â'r meini prawf a ddisgrifir uchod – bo'r traethawd estynedig i'w adneuo yn y llyfrgelloedd, rhaid i Gadeirydd/Cynullydd y Bwrdd Arholi drefnu gyda'r myfyriwr neu'r fyfyrwraig i unrhyw fân gywiriadau neu gywiriadau teipograffig gael eu gwneud ac i'r ddau gopi o'r traethawd estynedig gael eu rhwymo'n barhaol ar y ffurf sy'n ofynnol er mwyn eu hadneuo yn y llyfrgelloedd.

Yn ogystal, rhaid adneuo copi electronig o fersiwn derfynol y traethawd estynedig yng Nghadwrfa Ymchwil Sefydliadol y Brifysgol, sef Cadair. I gael gwybodaeth am gyflwyno'r copi electronig, cysylltwch â'r Gwasanaethau Gwybodaeth gg@aber.ac.uk

Unwaith y bo hyn wedi ei wneud at foddhad y Cadeirydd/Cynullydd, dylai'r Cadeirydd/Cynullydd anfon y ffurflen Canlyniad ac Adroddiad, wedi ei llenwi, i'r Gofrestrfa. Rhaid peidio ag anfon y ffurflen yn uniongyrchol i'r Gofrestrfa nes bo'r gwaith wedi ei rwymo'n barhaol a'i ddychwelyd gan y myfyriwr neu'r fyfyrwraig i'r Cadeirydd/Cynullydd.

Cyfrifoldeb y myfyrwyr yw gwneud y cywiriadau sy'n ofynnol a sicrhau bod eu gwaith wedi ei rwymo yn y ffurf barhaol sy'n ofynnol drwy reoliad. Dylai'r Cynullwyr sicrhau bod y tasgau hyn wedi eu cyflawni'n foddhaol. Felly, dylai'r ymgeiswyr sy'n ystyried cyflwyno eu traethawd estynedig i'w arholi mewn rhwymiad dros dro nodi, yn achos traethodau estynedig sydd i'w hadneuo yn y llyfrgelloedd, mai eu cyfrifoldeb hwy yw trefnu i'r traethawd estynedig gael ei ailrwymo.

Y traethodau estynedig hynny sydd i'w hadneuo yn y llyfrgelloedd yw'r unig rai y mae'n ofynnol eu rhwymo'n barhaol a'u cyflwyno ar ffurf electronig yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol. Gall adrannau ddewis cadw traethodau estynedig eraill mewn casgliad adrannol. Yn y cyfryw achosion, mater i ddisgresiwn yr Adran yw'r dull terfynol o rwymo, er y byddant yn dal i'w gwneud yn ofynnol bod mân wallau neu wallau teipograffig yn cael eu cywiro. Dylai'r traethodau estynedig na fyddant yn cael naill ai eu hadneuo mewn llyfrgell na'u cadw mewn casgliad adrannol gael eu dychwelyd i'r ymgeisydd gydag unrhyw sylwadau gan yr arholwyr wedi eu dileu.

Mae'r Cynullydd/Ysgrifennydd yn adneuo copïau wedi'u rhwymo o'r traethodau estynedig llwyddiannus fel a ganlyn:

- 1 copi yn uniongyrchol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
- 1 copi i Lyfrgell y Brifysgol.
- 1 copi electronig i Gadwrfa Ymchwil Sefydliadol y Brifysgol.

Rhaid dileu o’r copïau caled unrhyw nodiadau neu sylwadau ar yr ymylon gan arholwyr mewn traethodau estynedig cyn iddynt gael eu hadneuo mewn llyfrgelloedd.

## 9 Gwahardd Mynediad

Mae’r Brifysgol yn disgwyl y bydd gwaith ymchwil a dderbynnir ar gyfer gradd uwch ar gael yn rhydd, ac na fydd yn ddarostyngedig i unrhyw ddosbarthiad diogelwch na chyfyngiadau mynediad.

Fodd bynnag, mewn achosion lle mae angen blaenoriaethol am gyfyngu copïo neu fynediad (er enghraifft lle mae ymchwil noddedig wedi arwain at draethawd estynedig sy’n cynnwys gwybodaeth fasnachol-sensitif) gall y Brifysgol, ar argymhelliad arbennig Adran, osod gwaharddiad ar lungopïo a/neu fynediad i draethawd estynedig am gyfnod penodol (sydd fel arfer yn dair blynedd yn y lle cyntaf). Cyfrifoldeb eich arolygydd yw gwneud cais i’r Adran i geisio gwaharddiad cyn gynted ag y bo’n ymarferol. Yn ddelfrydol bydd yr Adran yn gallu anfon argymhelliad y dylid gosod gwaharddiad at y Brifysgol ar ddechrau cyfnod eich ymgeisyddiaeth.

Nodwch, os digwydd bod gwaharddiad ar lungopïo a/neu fynediad yn cael ei ganiatáu gan y Brifysgol, y dylai’r datganiad wedi’i lofnodi sydd i’w gynnwys gyda phob copi o’r traethawd estynedig a gyflwynir, nodi y dylai’r traethawd estynedig fod ar gael yn rhydd *ar ôl diwedd cyfnod y gwaharddiad*.

Fel rheol, bydd teitl y traethawd estynedig a chrynodeb ohono ar gael.

**Cynllun y Dudalen Datganiad a Gosodiadau**

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn yn flaenorol ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod ..................................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad .........................................................................

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae **gwasanaethau cywiro*** wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn.

Cydnabyddir ffynonellau eraill (e.e. mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur).
Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod .................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad .......................................................

[* Mae hwn yn cyfeirio at i ba radd y cywiriwyd y testun gan bobol eraill]

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lun-gopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod ..................................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad ...........................................................................

**DS**: *Dylai ymgeiswyr y mae gwaharddiad mynediad wedi'i gymeradwyo ar eu rhan gan y Brifysgol (gweler Nodyn 7), ddefnyddio'r fersiwn canlynol o Osodiad 2:*

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lun- gopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd â'i gilydd wedi i gyfnod y gwaharddiad ar fynediad a gymeradwywyd gan Brifysgol Aberystwyth ddod i ben.

Llofnod ..................................................................... (ymgeisydd)

Dyddiad ...........................................................................

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyfenw/Enw Teuluol ……………

Blaenlythrennau ……………

**ARHOLI TRAETHAWD ESTYNEDIG GRADD MEISTR A ADDYSGIR:**

**FFURFLEN HYSBYSU YMGEISYDDIAETH**

Cwblhewch y ddau gopi o’r ffurflen hon mewn teipysgrif neu inc du pan fydd eich traethawd estynedig yn barod i’w gyflwyno i’ch Adran/Ysgol/Sefydliad i’w arholi.

Cyfenw/Enw Teuluol .................................................. Dyddiad Geni..................................

*(ailadroddwch eich cyfenw, a rhowch eich blaenlythrennau, yn y blwch ar gornel dde uchaf y ffurflen hon)*

Enwau blaen (yn llawn) ..............................................................Teitl..................................

Cyfeirnod Myfyriwr…………………………………………………………………...

Teitl y Radd (e.e. MA, MSc, MBA ac ati).........................................................................

Teitl y cynllun gradd Meistr a Addysgir a ddilynwyd (e.e. Astudiaethau Ceffylau) …………

……………………………………………………………………………………………..…

Adran/Ysgol/Sefydliad lle’r astudiwyd ........................................................................

Gradd(au) cyfredol (nodwch unrhyw rai o Brifysgol Aberystwyth) .................................................................

Enw(au) a theitl(au) eich Arolygydd/wyr........................................................................

Teitl Llawn y traethawd estynedig a gyflwynir.........................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

Nodwch y bydd y canlynol oll yn cael eu cyflwyno ynghyd â’r ddau gopi gofynnol o’r ffurflen hon:

☐ dau gopi o’ch traethawd estynedig a’r dudalen Datganiad a Gosodiadau;

Mae’r traethawd estynedig wedi ei gyflwyno i’w Arholi mewn Rhwymiad *Parhaol ☐ neu

*Dros dro ☐

(*rhowch dic yn y blwch priodol)

**At Ddefnydd y Swyddfa yn Unig: peidiwch ag ysgrifennu yn y gofod hwn**

1. Ar ôl darllen nodyn 3, nodwch – os byddwch yn cymhwyso ar gyfer eich gradd – eich dewis o ran derbyn eich gradd (rhowch dic fel y bo'n briodol):

**Naill ai**

☐ **bod yn bresennol mewn Cynulliad Gradd** *NEU* ☐ **derbyn eich gradd in absentia**

2. Os ydych wedi dewis bod yn bresennol mewn Cynulliad Gradd, rhowch gyfeiriad e-bost diweddar a gweithredol y gall y Swyddfa Raddio ei ddefnyddio i gysylltu â chi rhwng mis Mawrth a mis Medi. Bydd pob gohebiaeth ynghylch Graddio – cofrestru, tocynnau i westeion, llogi gŵn, ac ati – yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn rhoi cyfeiriad e-bost. Os na fyddwch yn gwneud hyn ni fyddwch yn cael unrhyw wybodaeth am Raddio.

**Noder**: Bydd eich Tystysgrif Gradd yn cael ei hanfon atoch ym mis Awst/Medi os ydych chi'n mynychu cynulliad. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi cyfeiriad y gellir anfon y dystysgrif iddo yn ystod y misoedd hyn. Os na fyddwch yn gwneud hyn ni fyddwch yn cael eich tystysgrif.

Gallwch roi gwybod i'r Swyddfa Academaidd am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad trwy e-bostio graduation.office@aber.ac.uk neu pgsstaff@aber.ac.uk.

**Pwysig:**
Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr bod eich cyfeiriad yn gywir bob amser, nid yw'r Brifysgol yn atebol am anfon gohebiaeth i'r cyfeiriad anghywir.

**Ysgrifennwch eich cyfeiriad gohebu isod yn glir mewn llythrennau bras, gan ofalu eich bod yn rhoi eich enw llawn, eich cyfeirnod myfyriwr, eich cyfeiriad llawn a'ch cod post a'ch e-bost.**

Cyfeirnod Myfyriwr ……………………………… E-bost ……………………………………………..…

Enw'r cynllun Meistr ………………………………………………………………………………….

Adran ……………………………………………………………………………………………...

(*dileer fel y bo'n briodol) *Mr / Ms / Mrs / Miss

Cyfenw ……………………………………………………………………...…………………………….

Enw Cyntaf.............................................................................................................................................

Cyfeiriad …………………………………………...……………..

………………………………………………………………………..…..

……………………………………………….……………………….…..

…………………………………………………………………….……..

……………………………………………………………………..…. Cod Post ………………..……………

Os oes gennych gyfeiriad dros y môr ag yr hoffech i'r cyfeiriad gael ei deipio mewn iaith wahanol e-bostiwch pgsstaff@aber.ac.uk **a** graduation.office@aber.ac.uk gyda'ch cyfeiriad dros y môr <u>llawn</u>, eich enw <u>llawn</u> a'ch cyfeirnod myfyriwr.

*Cyn llofnodi a chyflwyno **dau gopi cyflawn** o'r ffurflen hon i'ch adran/ysgol/Sefydliad astudio, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall y nodiadau esboniadol atodedig a'ch bod yn cyflwyno'r ffurflenni angenrheidiol eraill ynghyd â dau gopi o'ch traethawd estynedig. Dylech <u>wahanu a chadw'r nodiadau esboniadol</u>.*

Llofnod yr ymgeisydd …………………………………………… Dyddiad ……………………………….

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**ARHOLI TRAETHAWD ESTYNEDIG GRADD MEISTR A ADDYSGIR:**

**FFURFLEN HYSBYSU YMGEISYDDIAETH**

Cwblhewch y ddau gopi o'r ffurflen hon mewn teipysgrif neu inc du pan fydd eich traethawd estynedig yn barod i'w gyflwyno i'ch Adran/Ysgol/Sefydliad i'w arholi.

Cyfenw/Enw Teuluol …………

Blaenlythrennau …………

Cyfenw/Enw Teuluol ................................................... Dyddiad Geni..................................

*(ailadroddwch eich cyfenw, a rhowch eich blaenlythrennau, yn y blwch ar gornel dde uchaf y ffurflen hon)*

Enwau blaen (yn llawn) ..............................................................Teitl..................................

Cyfeirnod Myfyriwr…………………………………………………………………...

Teitl y Radd (e.e. MA, MSc, MBA ac ati).........................................................................

Teitl y cynllun gradd Meistr a Addysgir a ddilynwyd (e.e. Astudiaethau Ceffylau) …………

……………………………………………………………………………………………..…

Adran/Ysgol/Sefydliad lle'r astudiwyd .............................................................................

Gradd(au) cyfredol (nodwch unrhyw rai o Brifysgol Aberystwyth) ...................................................................

Enw(au) a theitl(au) eich Arolygydd/wyr..........................................................................

Teitl Llawn y traethawd estynedig a gyflwynir.................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

Nodwch y bydd y canlynol oll yn cael eu cyflwyno ynghyd â'r ddau gopi gofynnol o'r ffurflen hon:

☐ dau gopi o'ch traethawd estynedig a'r dudalen Datganiad a Gosodiadau;

Mae'r traethawd estynedig wedi ei gyflwyno i'w Arholi mewn Rhwymiad *Parhaol ☐ neu *Dros dro ☐

(*rhowch dic yn y blwch priodol)

**At Ddefnydd y Swyddfa yn Unig: peidiwch ag ysgrifennu yn y gofod hwn**

1. Ar ôl darllen nodyn 3, nodwch – os byddwch yn cymhwyso ar gyfer eich gradd – eich dewis o ran derbyn eich gradd (rhowch dic fel y bo'n briodol):

**Naill ai**

☐ **bod yn bresennol mewn Cynulliad Gradd** *NEU* ☐ **derbyn eich gradd in absentia**

2. Os ydych wedi dewis bod yn bresennol mewn Cynulliad Gradd, rhowch gyfeiriad e-bost diweddar a gweithredol y gall y Swyddfa Raddio ei ddefnyddio i gysylltu â chi rhwng mis Mawrth a mis Medi. Bydd pob gohebiaeth ynghylch Graddio – cofrestru, tocynnau i westeion, llogi gŵn, ac ati – yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn rhoi cyfeiriad e-bost. Os na fyddwch yn gwneud hyn ni fyddwch yn cael unrhyw wybodaeth am Raddio.

**Noder**: Bydd eich Tystysgrif Gradd yn cael ei hanfon atoch ym mis Awst/Medi os ydych chi'n mynychu cynulliad. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi cyfeiriad y gellir anfon y dystysgrif iddo yn ystod y misoedd hyn. Os na fyddwch yn gwneud hyn ni fyddwch yn cael eich tystysgrif.

Gallwch roi gwybod i'r Swyddfa Academaidd am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad trwy e-bostio graduation.office@aber.ac.uk neu pgsstaff@aber.ac.uk.

**Pwysig:**
Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr bod eich cyfeiriad yn gywir bob amser, nid yw'r Brifysgol yn atebol am anfon gohebiaeth i'r cyfeiriad anghywir.

**Ysgrifennwch eich cyfeiriad gohebu isod yn glir mewn llythrennau bras, gan ofalu eich bod yn rhoi eich enw llawn, eich cyfeirnod myfyriwr, eich cyfeiriad llawn a'ch cod post a'ch e-bost.**

Cyfeirnod Myfyriwr ……………………………… E-bost …………………………………………………..…

Enw'r cynllun Meistr ………………………………………………………………………………….

Adran ……………………………………………………………………………………………...

(*dileer fel y bo'n briodol) *Mr / Ms / Mrs / Miss

Cyfenw ……………………………………………………………………...…………………………….

Enw Cyntaf......................................................................................................................................

Cyfeiriad …………………………………………...……………..

…………………………………………………………………...…..

…………………………………………….…………………….…..

……………………………………………………………….……..

…………………………………………………………………..…. Cod Post ………………..……………

Os oes gennych gyfeiriad dros y môr ag yr hoffech i'r cyfeiriad gael ei deipio mewn iaith wahanol e-bostiwch pgsstaff@aber.ac.uk **a** graduation.office@aber.ac.uk gyda'ch cyfeiriad dros y môr <u>llawn</u>, eich enw <u>llawn</u> a'ch cyfeirnod myfyriwr.

*Cyn llofnodi a chyflwyno **dau gopi cyflawn** o'r ffurflen hon i'ch adran/ysgol/Sefydliad astudio, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall y nodiadau esboniadol atodedig a'ch bod yn cyflwyno'r ffurflenni angenrheidiol eraill ynghyd â dau gopi o'ch traethawd estynedig. Dylech <u>wahanu a chadw'r nodiadau esboniadol</u>.*

Llofnod yr ymgeisydd …………………………………………… Dyddiad ……………………………….